

# Chwarae dros Cymru

Rhifyn 10 Haf 2003



NEWYDDION CHWARAE A GWYBODAETH GAN Y SEFYDLIAD CENEDLAETHOL DROS CHWARAE

## PEIDIWCH DAL EICH ANADL...

**D**aeth yr Adolygiad Chwarae Cenedlaethol a gadeiriwyd gan Frank Dobson AS ac a arweiniwyd gan Tim Gill (Cyfarwydd y Children's Play Council, mudiad cenedlaethol chwarae plant yn Lloegr) i ben ym mis Mawrth. Pwrpas yr adolygiad oedd trwytho dosraniad £200 miliwn a ryddhawyd (mwy na thebyg o 2005). drwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF) i greu a gwella cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc (0-16 oed) ar draws y DG.

Yn ôl London Play News (Haf 2003) dangosodd adroddiad interim (cyn i'r ymgynghoriad terfynol gael ei ystyried ac yn amodol ar gymeradwyaeth weinidogol) bod y rhan fwyaf o bobl yn Lloegr a gymerodd ran wedi rhoi blaenoriaeth i ariannu staff darpariaeth chwarae. Rhoddwyd llawer o bwyslais hefyd ar sefydlu ymagweddau strategol a chynllunio ariannu tymor-hir ar gyfer chwarae ar lefel leol.

Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y caiff yr arian ei wario yn y manau yma. Mae manylion yr adroddiad terfynol yn dal o dan ystyriaeth ac er y bwriadwyd iddo lanio ar garreg drysau yn hwyr yn y gwanwyn, mae ein ffynonellau'n awgrymu y bydd Calan Gaeaf yn fwy tebygol.

Yn y cyfamser rydym yn dal i aros am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganfyddiadau'r adolygiad yn ein gwlad ein hunain, a gwybodaeth ar ddosraniad y grant NOF yng Nghymru.

Ewch i [www.playwales.org.uk/factsheets](http://www.playwales.org.uk/factsheets) am ddiffiniad o ddarpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio, fel y'i hysgrifennwyd gan Chwarae Cymru ac a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## O Weledigaeth i Realiti?

**M**eewn cyfarfod diweddar rhwng Jane Hutt AC a Chwarae Cymru, cyhoeddodd y Gweinidog Plant gyfarfod cyntaf Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae, a gynhelir ym Medi 2003. Ni wyddom eto pwy gaiff wahoddiad i gymryd rhan, ond gwyddom y disgwylir i'r grŵp gwblhau ei waith o gynhyrchu argymhellion erbyn Ebrill 2004.



## Yr Hawl Cyntaf Nesaf

**M**ae Chwarae Cymru yn falch i ddatgan cyhoeddiad Yr Hawl Cyntaf... Prosesau Dymunol, yr uwch fframwaith sy'n cwblhau fframwaith Yr Hawl Cyntaf ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae, a lanswyd gan Jane Hutt yng nghynhadledd Chwarae Cymru - Dathlu Ysbryd Chwarae Antur, ym mis Mai.

Fel rhieni, gweithwyr chwarae, athrawon neu unrhyw un sy'n cydweithio â phlant, ein dyletswydd iddynt hwy yw darllen ac ystyried y llyfrau yma. Hyd yn oed i'r hen lawiau a'r mwyaf profiadol yn ein plith, mae datblygu a chynhyrchu'r Hawl Cyntaf wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n dealltwriaeth o ymddygiad plant. Mae wedi ein hannog i gwestiynu'r ffordd yr ydym yn gweld ein hunain mewn perthynas â phlant, a'r cyfleoedd chwarae yr ydym yn darparu ar eu cyfer. Yn y pen draw gobeithiwn y bydd hyn yn eu helpu i dyfu i fod yn bobl iachach a hapusach.

Mae'r Hawl Cyntaf yn dechrau newid y ffordd y mae gweithwyr plant yn rhedeg darpariaeth chwarae ar draws y DG. Dyma adolygiad gan

Helen Eiton, gweithwraig datblygu manau chwarae antur, gweithwraig chwarae a rhiant, sy'n gweithio i Chwarae lawn yn Abertawe:

Yr ail gyfrol yng nghyfres bwysig Chwarae Cymru yw *Yr Hawl Cyntaf - prosesau dymunol*. Y gyfrol gyntaf oedd *'fframwaith ar gyfer asesu ansawdd'*. Roedd wedi ei hanelu at lefelau sylfaenol a chanolradd. Mae gan y gweithwyr chwarae sydd wedi defnyddio'r gyfrol gyntaf yn awr fframwaith asesu gwaith chwarae uwch. Mae ychwanegu *'prosesau dymunol'* at y teitl yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnis fel cywirydd i'r pwyslais a roddir gan addysg ar ganlyniadau dymunol.

**Parhad, td. > 9**


# GOLYGYDDOL

**C**ynhelir y Diwrnod Chwarae ar ddydd Mercher 6ed Awst a'r thema yw ewch allan i chwarae. Mae tystiolaeth o blant yn chwarae allan yn arwydd o gymuned fywiog. Felly a yw ofnau'n ymwneud â phlant yn 'chwarae allan' yn rhai go iawn, neu ai esgus ydynt mewn gwirionedd dros symud yr hyn a amgyffredir gan rai fel 'niwsans' o'n strydoedd? Nid oes unrhyw dystiolaeth bod ymddygiad chwarae plant yn fwy o niwsans yn awr nag yr oedd mewn degawdau a aeth heibio. Mae ar blant angen chwarae'n rhydd ble bynnag mae'n ddiogel iddynt wneud hynny; mae'n hanfodol i'w datblygiad cymdeithasol a chorfforol, ac yn draddodiadol mae chwarae allan wedi rhoi amrediad o gyfleoedd a manteision iddynt na ellir eu cael wrth chwarae mewn mannau cyfyng.

Mae chwarae'n rhan o wneuthuriad biolegol plant, ac mae'r broses chwarae yn golygu gwneud swm ac annibendod, ond yn ein cymdeithas ni sy'n or-ymwybodol o iechyd a diogelwch a glanweithdra nid yw hyn yn cael croeso bob amser gan oedolion. Rydym yn gwerthfawrogi bod yna wir berygl mewn rhai cymunedau, er enghraifft, oherwydd rhai sy'n dwyn ceir, neu ddylanwad pobl sy'n gwrthio cyffuriau, ond ar y cyfan mae yna angen gwirioneddol i fedru gwahaniaethu rhwng y mathau o berygl y dylai plant ddysgu ymdopi â hwynt, a rhywbeth sy'n berygl bywyd neu'n wirioneddol niweidiol.

Mae gan blant yr hawl i chwarae - ac i fod yn rhan o'u cymuned, nid ar wahân iddi.

## Marianne Mannello Swyddog Datblygu



## CYNNWYS

• Golygyddol	P 2
• Atebôn <a href="http://childcomwales.org">childcomwales.org</a>	P 2
• Newyddion a Phecyn Chwarae y Comisiynydd Plant	P 3
• Swyddi ar y Wefan	P 3
• Storiâu Chwarae	P 3
• Arolygiad Mannau Chwarae Cymru	P 3
• Canolfannau Adnoddau Chwarae	P 4
• Rhifau Cyswllt	P 4
• Lansiad Glynebwy	P 4
• Herioi Hiliaeth trwy Chwarae	P 5
• Chwarae ar Olwynion	P 6
• Ysbryd	P 7
• Ludostrategin	P 7
• Meysydd Chwarae Antur	P 7
• Adolygu Prosesau Dymunol	P 8
• Adolygu Gwaith Chwarae Esblygol	P 9
• Digwyddiadau/Cyllido/Hyfforddiant	P 10

## Sgwrsio am Chwarae Allan



**R**oeddem yn awyddus i ddod i wybod Rmwy am brofiad plant pan oeddent yn chwarae allan, felly rydym yn cydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Plant sydd wedi doddi cwestiynau am chwarae allan yn eu hystafell sgwrsio newydd i blant - Atebôn.

- Oes gennych chi storiâu da/drwg i ddweud wrthym am chwarae allan?
- Ydych chi wedi cael eich annog i chwarae allan?
- Ydych chi erioed wedi cael stŵr, neu eich rhwystro rhag chwarae allan?

### Dyma rai o ymatebion y plant:

*Weithiau rydym yn mynd lawr i'r cae bach ger fy nhŷ ac mae ffensys o gwmpas ac os yr ydym yn creu gôl yn erbyn un o'r ffensys hyn mae'r fenyw yn bygwth galw'r heddlu. Heblaw am hynny rwy'n hoffi chwarae tu allan*

**Matthew**

*Dwi'n byw mewn pentref bach iawn a gallwn chwarae tu allan yn ddiogel iawn heblaw, weithiau, mae gyrrwyr yn mynd yn gyflym iawn drwy'r pentref. Dwi bob amser wedi cael fy annog i chwarae tu allan achos mae fy nhad yn ffarmwr ac mae gennym ddigon o gaeau i chwarae ynddyn nhw ac rydym yn adeiladu lot o guddfannau.*

### Nia

*Smai, dwi ddim yn mynd allan achos ni sy'n cael y bai am bopeth sy'n digwydd o amgylch y lle 'ma.*

### Benjie

*Rydym ni'n cael chwarae tu allan ond mae mwd ym mhobman yn yr ysgol ac os cewch eich dal â mwd ar eich sgidiau (fel sy'n digwydd drwy'r amser) mae'n rhaid i chi aros mewn i'w lanhau o'r llawr a'r muriau achos y brifathrawes newydd.*

**Hannah**

*Pan oeddwn i'n ifancach roeddwn i'n arfer chwarae tu allan yn aml gyda'r plant oedd yn byw yn y stryd, ond nawr mae gwaith ysgol a gwyllo'r teledu'n mynd â'r rhan fwyaf o'n amser i!*

*Dwi'n byw mewn cul-de-sac ac ar ddiwedd yr heol mae dam o dir diffaith sy'n arwain i goedwig fach ac wedyn caeau. Felly pan oeddwn i'n ifancach roedden ni'n arfer mynd yno i wneud 'cuddfannau'. Unwaith dwi'n cofio mynd â sach deithio a chinio wedi ei bacio ac roedden ni'n arfer aros yno bron drwy'r dydd gan esgus ein bod ni ar ryw fath o genhadaeth!*

*Dwi'n cofio cael y rhan fwyaf o'r plant yn y stryd i ddod tu allan a byddem yn chwarae'r gêm rholsglefrio i weld pwy fyddai'r cyflymaf i fynd rownd y bloc, gan rannu'n ddau dim (Abertawe a Llanelli dwi'n credu) fi oedd y reff!*

**Angharad**

## Chwarae dros Gymru

cyhoeddir gan Chwarae Cymru. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth ac ymholiadau at y Golygydd yn:

**Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH**

**Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: [mail@playwales.org.uk](mailto:mail@playwales.org.uk)**

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

*Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr yma. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi.*

*Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: [sales@carrickbusiness.co.uk](mailto:sales@carrickbusiness.co.uk)*

*Lluniau Cartwn gan Les Evans.*

# Rhannu Hanesion a Dweud Storiâu

**M**ae gwefan newydd yn rhoi cyfle i weithwyr chwarae rannu eu storiâu am y mwynhad a gânt wrth weithio â phlant.

Pan ofynnwyd iddi gyfrannu i'r Gynhadledd Dathlu Ysbyrd Chwarae Antur ym Mai, dywedodd Penny Wilson o Kidsactive stori hyfryd a hudolus am y plant y mae wedi gweithio â hwynt a'r canlyniadau cadarnhaol y gellir eu gwireddu trwy ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol i blant anabl. Ers hynny mae wedi sefydlu gwefan fel y gall gweithwyr chwarae rannu storiâu tebyg.

Mewn byd lle gofynnir i ni dro ar ôl tro i gyfiawnhau pwysigrwydd rhywbeth mor fyrhoedlog, dyma gyfle i rannu'r munudau sy'n llenwi eich calon a gwneud i binnau bach bigo eich croen - y pethau bach sy'n gwneud darparu cyfleoedd chwarae yn werth chweil.

Gallwch ychwanegu eich stori eich hunan am chwarae plant fel tudalen we neu gyfrannu at storiâu gweithwyr chwarae eraill. Mae cyfarwyddiadau cynhwysfawr ar sut i fwrw

'mlaen - cofiwch beidio datguddio'r enwau na'r manau yn eich stori.

[www.theinternationale.net/playstories](http://www.theinternationale.net/playstories)

"Gallwch ychwanegu unrhyw beth neu ddwyn unrhyw beth i ffwrdd. Mae'n ofod gweithio cydweithrediadol. Mae wedi ei gynllunio i'n galluogi i weithio gyda'n gilydd, rhannu ein storiâu ac adeiladu ein proffesiwn. Nid ydym yn poeni am sgrifennu safon uchel neu sillafu neu ramadeg, y stori sy'n cyfrif".

Elusen yw Kidsactive (cyn hir i uno â KIDS) sy'n hybu a chefnogi chwarae cynhwysol ar gyfer plant anabl. Wedi ei lleoli yn Llundain, mae'n gweithredu manau chwarae antur, gwasanaeth gwybodaeth, a rhwydwaith hyfforddi ac ymgynghori. Maent wedi sefydlu cyflwyniad undydd i chwarae cynhwysol a anelwyd at weithwyr chwarae sy'n dymuno ennill hyder wrth gydweithio â phlant anabl.

**Cysyllter â Kidsactive ar 020 7731 1435**

## Cofrestru gyda'r

**M**ae gweithdrefn gofrestru ac arolygu Arolygiaeth Gofal Plant Cymru wedi creu problemau i bobl sy'n darparu cynlluniau chwarae ers ei chyflwyno, a chafodd ei adolygu'n ddiweddar mewn ymateb i atborth o'r maes gwaith chwarae.

Er y newidiadau fodd bynnag, mae Chwarae Cymru yn cydnabod bod y weithdrefn gofrestru, er gwaetha'r newidiadau, yn parhau i rwystro darparwyddion chwarae a'i fod yn faith a beichus heb angen. Er enghraifft, ydym ni mewn difrif angen gwybod p'un ai ydyw muriau ystafell wedi eu papuro neu wedi eu peintio, pan fyddwn ni o'r farn bod yr ystafell yn ddiogel i blant chwarae ynddi? Rydym yn parhau i wthio am safonau realistig a pherthnasol sy'n

## Arolygiaeth

adlewyrchu gwir natur darpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio yng Nghymru, ac am arolygwyr sydd â dealltwriaeth o anghenion chwarae plant.

Yn rhifyn diwethaf Chwarae dros Gymru cyhoeddwyd ein bod yn cydweithio â grwp o swyddogion datblygu chwarae i gynhyrchu pecyn ymarferol a fyddai'n cynnwys cyngor ar weithdrefn gofrestru yr Arolygiaeth. Rydym wedi penderfynu peidio bwrw 'mlaen â'r prosiect hwn hyd nes fyddwn wedi trafod ymhellach â Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Arolygiaeth.

## Arolygiadau Ardaloedd Chwarae i Gymru

**M**ae arolygiadau manau chwarae yn creu cydbwysedd rhwng yr angen am ddiogelwch ac angen plentyn am amgylchedd sy'n cynnwys y potensial i fentro a datblygu sgiliau i ymdopi â pherygl yn ogystal â darparu chwarae o ansawdd.

Mae Chwarae Cymru yn cynyddu ei allu i ddarparu arolygiadau manau chwarae holl gynhwysfawr, a gwasanaeth hyfforddi arolygwyr ar gyfer pob math o ddarpariaeth chwarae.

"Rydym yn awyddus i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf wedi ei anelu'n benodol at gwrdd ag anghenion plant a darparwyr chwarae yng Nghymru", meddai Tony Chilton, Uwch Swyddog Datblygu Chwarae Cymru, ac arbenigwr mewn diogelwch manau chwarae. "Roedd yn eglur i ni nad oedd gennym fel tîm bychan, y gallu i gwrdd â'r galw am arolygiadau a hyfforddiant arolygwyr, felly rydym wedi dod i gytundeb ag Andy Wilson-Chalon a fydd yn cydweithio â ni fel ymgynghorydd".

Mae Andy yn Ymgynghorydd Diogelwch Gofod Chwarae â chanddo flynyddoedd o brofiad yn y maes datblygu ac arolygu manau chwarae. Mae hefyd wedi gweithio mewn datblygu cymunedol a rheoli parciau a meysydd chwarae. Mae ganddo brofiad eang a llwyddiannus mewn ymgynghori cyhoeddus, ac ef oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am ddatblygiad 'Six Acre Standard' y Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol.

**Mae ein gwasanaeth estynedig cenedlaethol yng Nghymru yn cynnwys:**

- Arolygiadau blynyddol cyn ac ar ôl gosod cyfarpar tu allan ac o dan do a manau chwarae antur;
- Archwiliadau ac adolygiadau manau chwarae;
- Adroddiadau arolygiadau ysgrifenedig ac ar ddisg;
- Adroddiadau arolygiadau dwyieithog yn unol â'r cais;
- Hyfforddiant mewn arolygu manau chwarae rheolaidd a gweithredol;
- Hyfforddiant mewn cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledl, 1995 - a newidiadau angenrheidiol ar gyfer mynediad teg i ardaloedd chwarae tu allan a manau chwarae antur;
- Hyfforddiant mewn gweithdrefnau rheoli ac asesu risg mewn manau chwarae tu allan a manau chwarae antur;
- Hyfforddiant mewn asesu 'gwerth chwarae' darpariaeth chwarae;
- Gwasanaeth tystiolaeth arbenigol ar gyfer cyfreithiad ar ddamweiniau perthnasol i ddarpariaeth chwarae yn ogystal ag achosion perthnasol i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledl;

Os oes gennych ddi-ddordeb yn unrhyw o'r gwasanaethau yma ac yn dymuno trafod eich anghenion yn fwy manwl, cysyllter â Tony yn ein swyddfa yng ngogledd Cymru ar 01745 851816 neu e-bostiwrch [northoffice@playwales.org.uk](mailto:northoffice@playwales.org.uk) Gweler tud.10 am hyfforddiant mewn arolygu manau chwarae.

## Swyddi Chwarae yng Nghymru ar y We

**L**edaenwch y gair! Mae gan wefan newydd Chwarae Cymru dudalen lle gellir hysbysebu swyddi sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru yn rhad ac am ddim.

Rydym bob amser wedi derbyn ymholiadau oddi wrth bobl sy'n chwilio am swyddi chwarae, ac oddi wrth bobl sydd yn dymuno hysbysebu yn Chwarae dros Gymru, felly rydym yn falch iawn ein bod yn awr mewn sefyllfa i gynnig cefnogaeth - yn arbennig i fudiadau sy'n ymdopi â chyllideb fach.

Gallwch ychwanegu swydd wag am ddim drwy gysylltu â'n swyddfa genedlaethol yng

Nghaerdydd - e-bostiwrch y geiriad at Kathy neu Claire yn [mail@playwales.org.uk](mailto:mail@playwales.org.uk) gan ofalu cynnwys manylion cyswllt, a dyddiad cau. Mae pob hysbyseb yn cael ei gwirio cyn ei hostio, ac fe'i cyhoeddir ar y dydd Llun ar ôl ei derbyn a'i dileu y dydd Llun yn dilyn y dyddiad cau. Yn anffodus nid oes gennym yr adnoddau i weithredu fel tŷ clirio ar gyfer ceisiadau.

Felly o hyn ymlaen, pan fyddwch yn recriwtio staff neu'n chwilio am swydd yn y maes chwarae, cofiwch edrych ar ein gwefan.

[www.playwales.org.uk](http://www.playwales.org.uk)

[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

# Hwre am Wastraff!

**Mae llwyddiant diweddar Chwarae lawn pan enillodd wobwr amgylcheddol Mo bwys a lansio (o leiaf) ddwy stôr sgrap newydd, wedi ein hysgogi i argraffu dathliad o ganolfannau adnoddau chwarae Cymru.**

Ymwelwch ag unrhyw ganolfan adnoddau neu stôr sgrap ac fe gewch eich croesawu gan lu o drysorau cuddiedig ysbrydoledig o wastraff y gellir ei ail-ddefnyddio. Bydd biniau'n orlawn o ddefnyddiau, deunydd pacio, rhubanau, bobinau, blychau, edau a darnau o ledr, yn ogystal â silffoedd o bapur a darnau o gardfwrdd, teils, ffeiliau a phaent. Gallech hyd yn oed ddarganfod darnau prin a rhyfedd o arddangosfeydd mewn ffenestri neu ddrws cegin. Y syndod o ddod ar draws rhywbeth hollol annisgwyl yw'r rhyfeddod; mae'r staff bob amser yn awyddus i helpu ac mae'r nwyddau bob amser yn rhad.

Mae'r stôr sgrap hynaf yng Nghymru wedi ei lleoli mewn hen warws, yn llechu rhwng canolfan trwsio ceir ac ystafell arddangos carpedi. Mae Re-Create Caerdydd wedi cael amser caled yn ddiweddar, ond wedi ail-gychwyn o'r newydd gyda chryn egni a brwdfrydedd. Re-Create yw braich fasnachu Cymdeithas Gwasanaethau Chwarae Caerdydd a'r Fro, ac fel y cyfryw mae'n un o'r canolfannau adnoddau chwarae sydd wedi tyfu o gefndir chwarae. Maent yn amcangyfrif eu bod yn awr yn gwasanaethu tua 100,000 o blant yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos.

Bu Chwarae lawn yn gweithredu ers tair blynedd ac mae wedi ei leoli ar uned ddiwydiannol ger becws yn Abertawe. Maent wedi llwyddo i oroesi argyfwng ariannu o drwch blewyn pan ddsbarthwyd rhybuddion diswyddo. Pan alwais heibio roeddent yn llunio rhestr fer ar gyfer swyddi newydd drwy eu cais llwyddiannus i'r Gronfa Gymunedol, ac yn awyddus i mi ddiolch i bawb â'u

cefnogodd drwy eu hawr dywyllaf.

Mae storau sgrap eraill, fel yr un yn Aberhonddu, yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ymroddedig sy'n agor am rai oriau bob wythnos i gynnig deunydd crefft a gweithdai.

Y stôr sgrap ddiweddaraf yng Nghymru yw Re-Play yng Nglyn Ebwy, sydd ar stâd ddiwydiannol lwm a gwyntog. Mae'r fenter hon wedi datblygu o gynllun amgylcheddol ar gyfer ail-ddefnyddio gwastraff ac mae'n rhaid iddo fod yn hunan-ddigonol o fewn tair blynedd. Menter newydd arall â gwreiddiau amgylcheddol sydd newydd agor yw Trash and Carry, a redir gan Gwmni Cydweithredol Crest ym Mae Cinmel, Conwy, oedd yn rhan o ymgyrch Better Britain gan Shell. Mae eu cyllid wedi dod o Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd a'r Gwasanaeth Prawf, ond mae'n rhaid iddynt hwy hefyd wneud i'w gwasanaeth dalu am ei hunan yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae Storau Sgrap heb amheuaeth yn rhoi gwerth am arian yn nhermau ail-ddefnyddio gwastraff a fyddai fel arall yn cael ei dadlwytho mewn tomenni llanw. (Rwy'n credu bod Awdurdodau Lleol Cymru'n cael gwared o dros 90% o'u gwastraff mewn tomenni llanw ac yn ymdrechu i gwrdd ag amcanion ailgylchu). Y fantais sy'n deillio o waith storau sgrap yw bod plant yn cymryd rhan mewn proses sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o gynaliadwyath amgylcheddol.

Ac nid hynny yn unig, mae natur yr adnoddau sy'n cael eu cyflenwi gan storau sgrap yn annog plant i ddefnyddio'u dychymyg a bod

yn ddyfeisgar. Gofynnwch i unrhyw artist am y broses o greu gwaith celf ac mae'r gair chwarae bob amser yn ymddangos. Mae'r broses greadigol yn golygu chwarae'n rhydd â deunyddiau, delweddau a syniadau. Mae deunyddiau storau sgrap (yn wahanol i'r deunyddiau a hysbysebwr mewn catalogau) yn dueddol o gael eu gwerthu mor rhad fel y gallant gael eu defnyddio'n rhydd, a gall plant fwynhau eu hunain i'r eithaf ac archwilio eu potensial artistig.

Ond mae'r rhan fwyaf o ganolfannau adnoddau a storau sgrap yn gwneud llawer mwy na chyflenwi gwastraff diwydiannol y gellir ei ailgylchu i ysgolion a chynlluniau chwarae - maent hefyd yn perfformio swyddogaeth werthfawr yn eu cymuned leol. Mae rhai ohonynt yn cynnig llyfrgell neu gallwch hurio offer oddi wrthynt am bris isel, a gallech hurio ystafelloedd i fudiadau arall ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig cyfleoedd i bobl ddychwelyd i weithio trwy wirfoddoli, neu gyfleoedd i bobl ifanc gychwyn ar eu bywyd gwaith.

Ni fyddai neb yn gwadu bod sefydlu canolfannau adnoddau chwarae yn waith caled, a bod eu cynnal o ddydd i ddydd yn aml yn fusnes anodd, ond mae'r manteision i gymunedau a phlant yn enfawr. Llongyfarchiadau i holl ganolfannau adnoddau a storau sgrap Cymru, i'w gweithwyr teyrngar, gwirfoddolwyr ac aelodau'r byrddau am eu dyfalbarhad. Pob lwc i stôr sgrap Gwent sy'n agor ar y Diwrnod Chwarae. Gadewch i ni obeithio y byddwn yn gweld rhagor o ganolfannau adnoddau chwarae yn cael eu lansio yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a dymuniadau gorau i'r storau sgrap newydd - bydded i chi arbed gwastraff a ffynnu!

## Canolfannau Adnoddau Chwarae

- |              |  |               |   |
|--------------|--|---------------|---|
| • Aberhonddu | Stôr Sgrap Aberhonddu, Hen Swyddfa'r Post, Capel Isaf, Aberhonddu LD3 9RE                              | • Y Drenewydd | Canolfan Adnoddau y Drenewydd, Tŷ Cymuned, 11, Stryd Hafren, Y Drenewydd, Powys, SY16 2AQ<br>01686 629487 |
| • Abertawe   | Chwarae lawn, Bloc H Uned 22 Upper Forest Way, Parc Busnes Ashmount, Abertawe, SA6 8QR<br>01792 794884 | • Glyn Ebwy   | Re-Play, Uned 4 Stad Ddiwydiannol Glyn Ebwy, Glyn Ebwy, NP23 5S<br>01495 301234                           |
| • Bae Cinmel | Trash and Carry, Uned 38, Stad Ddiwydiannol Tir Llwyd, Bae Cinmel, LL18 5LA<br>01745 369216            | • Rhymni      | (i'w hagor ar 6 Awst 2003)<br>01685 846830  |
| • Caerdydd   | Re-Create, Stad Ddiwydiannol Pont Trelai, Heol Wroughton, Trelai, Caerdydd, CF5 4AB<br>029 2057 8100   | • Wrecsam     | Cymdeithas Chwarae Wrecsam, Canolfan Adnoddau, Heol y Tywysog Siarl, Wrecsam LL13 8 TH<br>01978 822217    |

# Herio Hiliaeth trwy Chwarae

**Cynhaliodd Nandini Mane, Gweithraig Hyfforddi a Datblygu'r Gweithgor yn Erbyn Hiliaeth mewn Adnoddau Plant, weithdai Cymru yn ddiweddar yn ystod Cynhadledd Chwarae Antur Chwarae Cymru. Yma, mae'n dweud pam ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o faterion hiliol wrth ddarparu gwasanaethau chwarae i blant. Mae ei chyfraniad yn hynod amserol yng ngoleuni'r trafferthion diweddar yn Wrecsam.**

Mae plant o oedran ifanc iawn yn derbyn negeseuon o bopeth a phawb o'u cwmpas - yr iaith a glywnt, y teganau y maent yn chwarae â hwynt, y delweddau gweledol a welant mewn llyfrau, ffenestri siopau ac ar y teledu. Mae argraff plant o'i gilydd a hwy eu hunain yn cael ei ddylanwadu gan natur y negeseuon hyn - p'un ai ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Mae plant angen adnoddau sy'n adlewyrchu amrywioldeb y gymdeithas y maent yn byw ynddi. Mae hyn yn arbennig o wir am blant sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn wyn. Yn absenoldeb adlewyrchiad cadarnhaol o amrywioldeb hiliol a diwyllianol, bydd diwylliant 'gwyn' Ewropeaidd yn parhau i gael ei weld fel y 'norm' tra bydd grwpiau diwyllianol o dras a diwylliant arall yn parhau i gael eu hymylu a'u stereoteipio.

Yn anad dim, mae plant yn dysgu am eu hunain ac am y byd o'u cwmpas trwy chwarae. Gall teganau a gemau gael eu gweld fel blociau adeiladu ymwybyddiaeth hiliol. Bydd deunyddiau chwarae sy'n adlewyrchu harddwch ac amrywioldeb amrediad eang o grwpiau o wahanol dras a diwylliant yn galluogi plant i ennill dealltwriaeth wirioneddol

a pharchu'r amrywioldeb o'u cwmpas a chael mantais fel canlyniad. Ond pan fydd plant bob amser yn gweld teganau sy'n cynrychioli pobl wyn yn cael eu hybu yn y cyfryngau, yn y siopau teganau, meithrinfeydd, ysgolion a darpariaeth chwarae yn rheolaidd, tra bo teganau sy'n cynrychioli pobl ddu naill ai'n absennol neu yn y cefndir, yna mae perygl i'r plant fewnoli'r neges bod pobl wyn rywfodd yn bwysicach mewn cymdeithas.

Mae'r modd y mae gweithwyr yn edrych ar y fath deganau yn allweddol ar gyfer datblygu agweddau cadarnhaol. Gan fod plant yn aml yn dod o dan ddylanwad oedolion, mae'n bwysig rhoi'r un sylw a'r un gwerth i deganau, gemau, posteri, ffilmiau a storïau sy'n cynrychioli pobl ddu ag i'r rhai sy'n cynrychioli pobl wyn.

Ychydig o blant du sy'n medru mynegi sut mae hiliaeth yn effeithio arnynt. Yn aml gellir ei weld mewn newid ym mhatrwm ymddygiad neu amharodrwydd i gydnabod lliw eu croen hwy eu hunain. Er mwyn datblygu ymwybyddiaeth gadarnhaol mae angen i blant du gael mynediad i deganau sy'n cynrychioli delweddau y gallant uniaethu â hwynt. Bydd hyn yn annog plant du i archwilio eu syniadau a'u hemosiynau yn llwyr drwy chwarae.

Mae angen i bob plentyn chwarae ag amrywiaeth eang o ddoliau sy'n cynrychioli amrediad o liwiau croen, nodweddion wynepryd naturiol a gwead gwallt (mae dol ddu gyda wynepryd Ewropeaidd yn rhoi neges clir bod wynepryd Ewropeaidd yn well). Dylent

gael mynediad i baent creonau a phensiliau mewn amrediad o liwiau croen, a darllen a thrafod storïau a gemau sy'n cynnwys arwyr ac arwresau du.

Mae'n bwysig annog plant i fynegi meddyliau a allai fod wedi cael eu dylanwadu gan stereoteipio hiliol, fel y gallwn eu galluogi i herio'r syniadau hyn drwy storïau a thrafodaethau. Drwy beidio siarad am liw croen neu ddiwylliant, a thrwy roi stŵr i blant am ofyn cwestiynau, gallem fod yn cryfhau camddealltwriaeth a stereoteipiau.

Pan fyddwn yn aros a meddwl am y peth, mae'n amlwg na ddylid rhagdybio personoliaeth, potensial neu ffordd o fyw rhywun ar sail eu nodweddion corfforol, gwead eu gwallt, lliw eu croen ac ati, eto anaml y byddwn yn aros i ddadansoddi'r negeseuon sy'n cael eu hyrddio atom bob dydd. Mae pob plentyn angen gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn modd cadarnhaol yn y byd o'u cwmpas, ein gwaith ni yw cwrdd â'r angen yma.

Mae'r Gweithgor yn erbyn Hiliaeth mewn Adnoddau Plant yn cyhoeddi arweiniad ar ddewis adnoddau priodol ar gyfer plant. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant, yn dosbarthu gwybodaeth ac yn cynhyrchu rhestrau ar gyfer adnabod teganau priodol, llyfrau ac adnoddau eraill.

**Ffoniwch 0207 501 9992 neu e-bostiwch [wgarc.r@virgin.net](mailto:wgarc.r@virgin.net).**

## a Storau Sgrap yng Nghymru



**CHWITH:**  
Tony Hart yn tynnu lluniau cartwn i godi arian ym mharti lansio Re-Play Glyn Ebwy

**DE:**  
Plant o Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen yn mwynhau gweithdy seindorf hen bethau ym mharti lansio Re-Play Glyn Ebwy.



# "Y Cyfan rydyn ni eisiau yw rhywle i sglefrïo heb drafferth."

**M**ae sglefrfyrdio wedi ennill ei blwyf yn niwyllyant a bywyd cymdeithasol pobl ifanc. Gweithgaredd hunan-ddysgedig yn bennaf yw hwn, gyda phobl ifanc yn dangos ac ymarfer sgiliau yng nghwmni cyfoedion - gan gydweithredu i wella eu perfformiad gydag ychydig neu ddim ymyrraeth gan oedolion. Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc wella eu dychymyg, dyfeisio dulliau a thriciau newydd a rheoli a mentro yn ogystal ag ennill meistrolaeth corfforol. Fel y cyfryw, mae sglefrfyrdwyr (a beicwyr BMX a sglefrwyr mewn-lein) yng Nghymru yn cyrraedd lefelau rhyfeddol o fedrusrwydd yr ydym yn teimlo y dylid ei gydnabod a'i gymeradwyo.

Yn anffodus mae prinder gofod pwrpasol ar gyfer sglefrfyrdwyr ac mae hyn yn eu gorfodi i fynd allan i'r strydoedd, a all arwain at wrthdaro. Pan fydd sglefrfyrdio'n digwydd mewn mannau anaddas mae'n amlwg bod yna bryder ynglŷn â iechyd a diogelwch. Yn y cyfamser, os yw'n anodd dod o hyd i fannau i sglefrïo yn y dinasoedd, mae hyd yn oed yn anoddach mewn ardaloedd gwledig. Mewn trefi bach a phentrefi, gall y cynghorau fod yn brin o arian ar gyfer cynnal ardaloedd chwarae traddodiadol, heb sôn am ddarparu ardaloedd chwarae ar gyfer offer ag olwynion.

Gall llawer o oedolion o blith y cyhoedd deimlo bod grwpiau o bobl ifanc yn fygythiad, ac yn aml maent yn gwrthwynebu cynlluniau i greu mannau chwarae ag olwynion oherwydd y credant y byddant yn dod yn ffocws ar gyfer fandaliaeth ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol honedig. Mewn gwirionedd mae tystiolaeth bod darparu cyfleusterau pwrpasol ar gyfer

sglefrfyrdwyr yn lleddfu'r fath ymddygiad - yn arbennig pan fydd pobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu a threfnu'r cyfleuster. Mae ymgynghori cymunedol trefnus a hollgynhwysfawr yn gallu helpu i ddileu rhai o'r rhagfarnau sy'n bodoli rhwng pobl ifanc ac oedolion. Mewn un achos, yn dilyn ymarfer ymgynghorol, gofynnodd un o'r oedolion yn y gymuned a fyddai'n bosibl cael mainc wedi ei gosod ger y parc sglefrïo fel y gallai eistedd i wlyio'r sglefrwyr.

Mae pobl ifanc eu hunain yn awyddus iawn i gael ardaloedd pwrpasol ar gyfer gweithgareddau ar olwynion. Maent wedi cael llond bol ar gael eu symud ymlaen a'u trin fel niwsans. Gall rhwystrdogaeth a diflastod arwain at ymddygiad sy'n anodd i weddill cymdeithas ei dderbyn. Yn

hytrach na gweld eu hymddygiad fel problem, efallai y dylem ddeall bod hyn yn rhan o'u tyfiant a'u datblygiad; mae'n amlgu ei hunan fel ymddygiad 'gwrth-gymdeithasol' mewn gofod anaddas. Mae pobl ifanc yn dymuno cael eu herio a'u hysgogi, a gall darpariaeth ardal chwarae ar gyfer offer ag olwynion wneud cyfraniad cadarnhaol i'w bywydau o fewn y gymuned sy'n eiddo iddynt hwy lawn cymaint ag i ni.

Mae'r erthygl yma'n cynnwys dyfyniadau o'r erthygl Half-Pipe Dreams gan Rosie Niven, a ymddangosodd yn Young People Now 25 Mehefin 2003.

**Medrir cael gwybodaeth bellach am y cylchgrawn Young People Now ar: [www.yppmagazine.com](http://www.yppmagazine.com) neu drwy ffonio 020 8606 7500**

**Mae cynlluniau ariannu diweddar yng Nghymru, a gwell cydnabyddiaeth o anghenion a dymuniadau pobl ifanc, yn golygu ein bod yn fwy tebygol o weld sefydlu rhagor o fannau chwarae ar olwynion o gwmpas y wlad. Dyma rai canllawiau arfer da y medrwn eu defnyddio pan fyddwn yn cynllunio ardaloedd ar gyfer chwarae ar olwynion:**

- ffurfiwch grŵp, a chysylltwch â'r Awdurdod Lleol, mae hyn yn rhoi hygyrdedd pan fyddwch yn ceisio am grantiau ac yn mynd at gyrrf eraill a fedrai roi cefnogaeth i chi.
- dynodwch yr angen am y cyfleuster a safle addas;
- darganfyddwch beth mae sglefrwyr, beicwyr BMX a sglefrwyr mewn-lein yn dymuno ei gynnwys yn y cynllun;
- ymwelwch â pharciau sglefrïo llwyddiannus fel y gallwch gael gwell syniad o'r offer a allai fod ar gael;
- ymgynghorwch â'r gymuned leol - gall hyn leddfu gwrthdaro a hybu cydlynid;
- siaradwch â'r heddlu, cynghorwyr lleol a chymdeithasau chwarae, a grwpiau lleol yn

- y gymuned; maent yn ffynonellau gwerthfawr o gefnogaeth;
- ymgynghorwch â sglefrwyr profiadol - maent hwy yn gwybod beth sy'n gweithio a'r hyn sydd heb fod yn gweithio;
- defnyddiwch gontractwyr/cyflenwyr arbenigol;
- ymchwiliwch y costau'n drwyadl - mae ramp goncrid sylfaenol yn medru costio i fyny at £10,000 - ond mae deunyddiau amgen ar gael;
- gwnewch ddarpariaeth ar gyfer cynnal a chadw rheolaidd;
- cost yswiriant - gall fod yn anodd cael ysiwirant a gall fod yn ddrud

## OLWYNION AR GYFER CHWARAE

**M**ae cynnydd yn y galw am gyfleusterau BMX a pharciau sglefrïo yn golygu bod ardaloedd chwarae ar olwynion yn ymddangos ledled Cymru, felly penderfynodd Chwarae Cymru gynnal seminar i drafod y materion perthnasol niferus ac ysbrydoli a chefnogi pobl sy'n ystyried datblygu'r fath ddarpariaeth.

Roedd yr haul yn disgleirio ar y promenâd ar gyfer cynhadledd 'Olwynion ar gyfer Chwarae' a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gynadledda Llandudno ddydd Gwener 21 Mawrth. Cwmpasodd cyflwyniadau a gweithdai amrediad o bynciau, megis, sut i gwrdd ag anghenion pobl ifanc, a'r manteision sy'n deillio o ddarparu cyfleusterau hamdden anffurfiol yn y gymuned, yn ogystal â darganfod arian a materion yn ymwneud â iechyd a diogelwch.

Cafodd y cynrychiolwyr yn y gynhadledd ddiwrnod anhygoel, defnyddiol a difyr - cynghorau cymuned,

grwpiau ieuencid, mannau chwarae antur, cynghorau tref yn ogystal ag adrannau hamdden a chwarae mewn awdurdodau lleol. Arddangosodd cynhyrchwyr blaengar offer sglefrfyrdio a BMX yn y brif neuadd ac adeiladodd un cwmni hanner-pibell ar y promenâd er mwyn i'r dirprwyon gael cyfle i roi cynnig arni!

**Mae cynlluniau ar y gweill i redeg seminar debyg yn ne Cymru'r gwanwyn nesaf. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Kathy yn ein swyddfa genedlaethol 029 2048 6050 neu e-bostio [kathy@playwales.org.uk](mailto:kathy@playwales.org.uk)**

Cafodd grŵp o bobl ifanc o Ysgol Treffynnon yng ngogledd Sir Y Fflint hwyl yn dangos eu sgiliau hunan-ddysgedig ar hanner-pibell ar bremenâd Llandudno.



# Dathlu Ysbryd

**B**lwyddyn arall, cynhadledd Blwyddiannus arall i'r rhai a ymgyfrannodd mewn chwarae anturus, a manau chwarae antur...trafodaeth ddifyr, hybu anghenion chwarae plant a cheisio ysbrydoli gweithwyr chwarae i fynd â'u harfer i lefel arall.

Gwirfoddolodd amrediad o siaradwyr ac arweinwyr gweithdai, o ddamcaniaethwyr academaidd i weithwyr chwarae ymarferol, eu gwasanaethau gan rannu sgiliau a gwybodaeth, ac ymunodd

## Chwarae Antur

### 14 a 15 Mai

'arbenigwyr' a 'dechreuwyr' â'i gilydd i drafod rhai o'r materion cyfoes mewn chwarae a gwaith chwarae.

Bydd yr Ysbryd yn parhau y flwyddyn nesaf, ac fel arfer byddwn yn gwahodd unrhyw un a phob un sy'n ymgyfrannu mewn chwarae antur a gwaith chwarae anturus i'n helpu i drefnu neu wneud cynnig am gyflwyniad neu weithdy.

Yn y cyfamser byddwn yn gwahodd rhai o siaradwyr eleni i ysgrifennu darnau i Chwarae dros Gymru a rhannu eu meddyliau a'u profiadau â chynulleidfa ehangach. Y gyntaf o'r rhain yw Nandini Mane - gweler ei herthygl ar dudalen pump.

**Diolch i bawb a gymerodd ran, siaradwyr, arweinwyr a chynrychiolwyr fel ei gilydd.**

Cyflwyniad i Fannau

## Chwarae Antur

### 7 a 8 Hydref 2003

**M**ae datblygiadau diweddar a chyfeirebau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi blaenoriaeth ar ddatblygu cyfleoedd chwarae sy'n rhoi anghenion plant yn gyntaf. Eu barn hwy yw y bydd Mannau Chwarae Antur yn ein galluogi i ymateb yn gadarnhaol i angen plant i chwarae trwy ehangu'r amrediad a'r cyfleoedd sydd ar gael.

Cyfleuster mynediad agored wedi ei staffio yw Man Chwarae Antur lle gall plant fowldio eu hamgylchedd i'w dibenion eu hunain mewn awyrgylch herfeiddiol wedi ei hwyluso gan weithwyr chwarae. Yn draddodiadol maent wedi eu datblygu i wneud iawn am absenoldeb man agored naturiol lle byddai plant wedi chwarae yn y gorffennol.

Gwahoddwyd Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf, ac eraill a allai fod mewn sefyllfa i ddatblygu Mannau Chwarae Antur i fynychu seminar Chwarae Cymru ym mis Gorffennaf i weld, i archwilio a dysgu am yr adnodd anhygoel hyn i blant. Mae'n achlysur deuddydd, a fydd yn cynnwys ymweliadau â nifer o fannau chwarae antur i archwilio arfer da mewn lleoliadau sefydledig a sut y maent yn gweithio o fewn y gymuned. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn cyflwyniadau a gweithdai o dan arweiniad ymarferwyr gwaith chwarae blaengar, i archwilio rôl allweddol Mannau Chwarae Antur a sut y gallent gael eu datblygu ymhellach yng Nghymru.

## Ludostrategin?

*Beth ar y ddaear?*

'A vision without a task is but a dream.

A task without a vision is drudgery.

A vision with a task is the hope of the world'.

*Arysgrifad ar Eglwys yn Sussex, Lloegr 1730*

**C**afodd Chwarae Cymru y dasg o ddatblygu rhwydwaith gefnogi i Weithwyr Datblygu Chwarae yng Nghymru. Cwrs deuddydd preswyl oedd Ludostrategin wedi ei anelu at helpu Gweithwyr Datblygu Chwarae y sector gwirfoddol a chyhoeddus i elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd unigryw sydd ar gael ar gyfer gwella datblygiad chwarae plant yng Nghymru: yn benodol cefnogaeth wleidyddol ac ariannol i ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Polisi Chwarae cenedlaethol a'r chyhoeddiad Yr Hawl Cyntaf.

Galluogodd dynesiad cadarnhaol y digwyddiad y cyfranogwyr i ganolbwyntio ar atebion yn hytrach na phroblemau, a'u hannog i fod yn ddadansoddol ac adlewyrchol, gan ennill hyder i dynnu sylw at chwarae yn y manau lle mae hynny'n cyfrif. Un o ganlyniadau pwysicaf yr achlysur oedd y gydnabyddiaeth bod Staff Datblygu Chwarae yn elwa o'r rhwydwaith gefnogi. Roedd yn glir ein bod yn rhan o fudiad a fydd yn rhoi Cymru ymhellach ar y blaen yn y maes chwarae plant.

**Un dydd bydd Cymru'n wlad lle gall anghenion chwarae plant gael eu cydnabod a chael darpariaeth gyflawn ar eu cyfer.**

# YMLADD DROS CHWARAE

**R**ydym i gyd wedi gweld neu wedi clywed am y golygfeydd gwarthus sy'n dal i ddigwydd yn Nwyrain Ewrop - Rplant amddifad wedi eu clymu wrth eu gwely heb ddim ysgogiad, sy'n eistedd a siglo, wedi eu llesteirio ym mhob ffordd. Efallai bod rhai ohonom hefyd yn gwybod am yr ymchwil sy'n dangos bod ymddygiad eithafol fel llofruddiaeth dorfol yn yr Unol Daleithiau yn gysylltiedig â diffyg chwarae cymdeithasol yn ystod plentyndod. Tra bo rhain yn enghreifftiau tywyll iawn, gall unrhyw un sy'n cydweithio â phlant yn ein gwlad ni ein hunain ddweud hanesion am unigolion nad ydynt wedi cael unrhyw gyfle i chwarae'n rhydd.

Mae rhai yn dadlau nad oes y fath beth â diffyg chwarae. Fodd bynnag, mae yna ymchwil gynyddol sy'n awgrymu bod diffyg y math o ysgogiad synhwyraidd a rhyngweithio dilyffethair â'r byd o'u cwmpas sy'n digwydd yn naturiol pan fydd gan blant fynediad i gyfleoedd chwarae o ansawdd da, yn medru cael effaith andwyol ar ddatblygiad iach plentyn. Mae hefyd yn amlwg bod y diffyg yma yn medru digwydd waeth beth fo cefndir economaidd, diwyllianol neu gymdeithasol, lefel gallu meddyliol a chorfforol, neu'r ardal lle mae plentyn yn byw.

Mae astudiaethau yn y Swistir\* yn cyfeirio at 'blant batri' (y rhai sydd heb gael cyfleoedd chwarae oherwydd ofn trafniadaeth neu beryglon oherwydd dieithriaid) sydd yn aml yn 'ymosodol ac yn cwyno llawer'. Erbyn iddynt gyrraedd pump oed maent wedi eu ffrwyno'n emosynol a chymdeithasol, yn ei chael hi'n anodd cymysgu, yn syrthio

nôl yn eu gwaith ysgol ac yn llawer mwy tebygol o fod yn or-dew.

Ar yr un pryd gofynnir yn gyson i'r rhai hynny ohonom sy'n hwyluso chwarae i gyfiawnhau bodolaeth neu ehangiad ein gwasanaethau. Mae gan rai ardaloedd dynodedig o ddifreintiad cymdeithasol fynediad i amrediad o gyllid posibl ar gyfer datblygu chwarae, tra bo ardaloedd eraill yn gorfod ymladd am bob ceiniog, er gwaethaf ffactorau lleol sylweddol sy'n nacáu amrediad iach o gyfleoedd chwarae i blant. Mewn ardaloedd eraill mae pobl â chanddynt agenda fwy poblogaidd (megis ymladd torcyfraith ymhlith plant o dan oed cyfreithiol, neu wthio cynlluniau addysgol) yn ymddangos fel petaent wedi herwgipio darpariaeth chwarae at eu dibenion hwy eu hunain.


Mae Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gam enfawr ymlaen yn y cyfeiriad cywir yn y dasg o hybu cyfleoedd chwarae iach i holl

blant Cymru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai darpariaethion chwarae angen tystiolaeth callach a mwy hygyrch i hybu eu hachos.

Mae Chwarae Cymru wedi comisiynu Bob Hughes, awdur 'Yr Hawl Cyntaf' a 'Yr Hawl Cyntaf - Prosesau Dymunol' yn ogystal â llyfrau eraill mawr eu parch ar chwarae a gwaith chwarae (gweler yr adolygiad llyfrau ar dud 9) i ymchwilio ac ysgrifennu taflen frifio ar ddiffyg chwarae i Chwarae Cymru, a gobeithiwn ei gyhoeddi yn gynnar yn yr Hydref.

**Cyhoeddwyd y rhesymeg tu cefn i Bolisi Chwarae dros Cymru sy'n cynnwys dadleuon defnyddiol ar gyfer darparu cyfleoedd chwarae o safon uchel ar ein gwefan: [www.playwales.org.uk/playpolicy](http://www.playwales.org.uk/playpolicy)**

*'Huttenmoser a Degan-Zimmerman (1995) Lebenstraume fur Kinder: Sefydliad Zurich Swiss Science*





## Yr Hawl Cyntaf nesaf (Parhad o dud. 1)

Mae addysg yn cael ei gyrru gan dargedau. Oherwydd ei systemau sicrwydd ansawdd mae'n rhaid cyfrif a mesur, ac i ryw raddau mae canlyniadau'n fesuradwy. Felly mae addysg yn rhoi plant ar brawf. Ar y llaw arall ni ellir mesur prosesau - ac nid yw chwarae, fel proses, yn fesuradwy. Mae problem felly'n wynebu awduron *Yr Hawl Cyntaf*. Sut mae datblygu system sicrwydd ansawdd ar gyfer proses? Ydych chi'n rhoi plant sy'n chwarae ar brawf? Ydych chi'n rhoi sgôr iddynt am y maint o fwynhad y maent yn ei gael? Mae *Yr Hawl Cyntaf* yn mynd i'r afael â hyn trwy awgrymu mai'r ffordd orau o sicrhau ansawdd mewn gwaith chwarae yw canolbwyntio ar weithwyr chwarae. Arfer adlewyrchol ddylai'r dull fod - dylem asesu ein hunain! Mae *Yr Hawl Cyntaf* yn darparu fframwaith y gellir datblygu ein hunan-asesiad o'i chwmpas. Ond cyn medru cychwyn asesu yr hyn a wnawn, rydym angen iaith i'w ddisgrifio.

**Mae David hanner ffordd i fyny'r goeden, yn cael anawsterau, a'r pren yn ei law yn rhy fyr o drwch blewyn i gyrraedd y casyn concyr. Mae yna ddigon o brennau byrrach ar y llawr ond dim rhai hirach. Felly mae'n twrio yn ei boced i chwilio am ysbrydoliaeth ac yn darganfod darn o llyn. Funudau'n ddiweddarach mae wedi cyfuno pren a llyn yn i wneud disodlwr casyn concyr soffistigedig.**

Sut wnaeth hyn ddigwydd? Wedi'r cyfan chwarae mae. DIM OND chwarae. Fel gweithiwr chwarae gwyddoch fod gweithgareddau sy'n cael eu hffwtio fel hyn yn allweddol bwysig mewn gwirionedd. Ond sut ydych yn egluro'r peth? Sut yr ydych hyd yn oed yn siarad am y peth? Yr hyn yr ydych wedi ei wlyo yw David yn ymarfer sgiliau hyblygrwydd cyfuniadol a dyna ffordd law fer o ddisgrifio gweithgareddau creadigol David. Mae wedi cyfuno eitemau unigol mewn dull newydd a defnyddiol. Mae hwn yn allu meddyliol uwch sydd yn gwneud dynolryw yn unigryw.

Mae'r iaith honedig dechnegol yma'n codi ofn ar bobl, yn cynnwys gweithwyr chwarae. Ond, fel gweithwyr chwarae nid ydym yn gwneud ffafr â'n hunain os na wnawn ymdrech i ddatblygu iaith sy'n gyffredin i bawr ar gyfer trafod yr hyn a welwn ac y gweithiwn â hwy bob dydd.

Mae dwy gyfrol *Yr Hawl Cyntaf* yn ceisio rhoi'r iaith gyffredin honno i ni. Maent yn ein cyflwyno i dermau llawfer technegol sydd eu hangen ar ein proffesiwn, fel y gallwn gael trafodaethau cynhyrchiol heb droi at enghreifftiau hirwyntog fel yr un uchod.



Anfantais hyn yw y gall y dogfennau godi braw arnom ar yr olwg gyntaf. Mae'r iaith yn ymddangos yn newydd ac anodd ac mae'n demtasiwn i ohirio darllen neu eu defnyddio 'tan yfory'...ac mewn amgylchedd gwaith chwarae prysur mae'n anodd cael yr amser - rhwng annog hyblygrwydd cyfuniadol a phwy â wyr beth arall! Ond da chi ceiswch ddod o hyd i beth amser yn ystod eich diwrnod gwaith. Wedi'r cyfan mae yna bwysau cynyddol i brofi ansawdd eich darpariaeth.

Nid yw'r llyfrau hyn yn disodli mesurau sicrwydd ansawdd cyfredol, gellir defnyddio'r fframweithiau o'u mewn yn annibynnol neu ochr yn ochr â pheynnau ansawdd eraill. Y gwahaniaeth mawr yw eu bod yn canolbwyntio ar anghenion y

plentyn, nid rhai arolygydd a allai fod heb ddealltwriaeth o bwysigrwydd hanfodol chwarae plant, ac a allai fod â llawer mwy o ddiddordeb yng nghyflwr eich toiledau. Ydych chi'n hapus i gael eich hasesu'n unig gan gorff allanol, neu rywun sy'n credu bod gwaith chwarae'n ymwneud â dim byd 'mwy na chwarae'? Neu a fuasech yn hoffi bod yn fodlon â'ch hunan am eich bod yn darparu'r cyfleodd chwarae gorau posibl?

**Mae'r Hawl Cyntaf ...fframwaith asesu ansawdd gwaith chwarae, yn awr ar gael o [www.amazon.co.uk](http://www.amazon.co.uk) neu gallwch archebu unrhyw un o'r cyhoeddiadau o swyddfa genedlaethol Chwarae Cymru.**

## ADOLYGIAD LLYFRAU

### Evolutionary Playwork and Reflective Analytic Practice

gan Bob Hughes

**Yr hyn sy'n disgleirio trwodd yn y llyfr yma yw cyfoeth o ddysgu gydol oes, datblygiad proffesiynol cyson i wella ansawdd a statws gwaith chwarae. Mae yma enghreifftiau o brofiad ac ymchwil gan rywun sy'n credu'n ddwfn ac yn dadansoddi effaith eu gwaith.**

Mae'r llyfr yma'n mynd ati i gefnogi pob gweithiwr drwy gyflwyno'r offer angenrheidiol ar gyfer arfer gwaith chwarae o ansawdd, gan helpu hyfforddiant a datblygiad ar bob lefel. Mae'n amlinellu'r prif egwyddorion a meysydd gwaith a gwasanaethau chwarae mynediad agored, ac fel y cyfryw bydd yn

cael ei ddefnyddio gan weithwyr chwarae ledled Torfaen yn rheolaidd. Gallai blaenoriaethau symud yn y dyfodol mewn amgylchedd o newid cyson, ond ar hyn o bryd bydd y llyfr yma o fantais i'r sector.

Mae hwn yn angenrheidiol fel rhan o'ch cyfarpar.

**Idris Bevan, Swyddog Datblygu Chwarae, Gwasanaeth Chwarae a Chymuned Ieuencid**

Cyhoeddir '*Evolutionary Playwork...*' gan Routledge a gellir ei archebu drwy siopau llyfrau neu o Amazon ISBN 0-415-25166-4

# DIGWYDDIADAU

## Diwrnod Chwarae - Ewch Allan a Chwarae

Mercher 6 Awst 2003 - diwrnod i ddathlu chwarae allan a chodi proffil chwarae plant.

*Ewch i [www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk) neu gysylltu â Cyngor Chwarae Plant 020 7843 6016*

## Parthau Cartref a'r Fenter Cymunedau Cynaliadwy

10 Medi 2003, Birmingham - Mae'n cwmpasu dylunio ac ymgyfraniad cymunedol yn ogystal â'r profiadau o sefydlu Parthau Cartref a thrafodaethau.

*Cysyllter â Helen Mallinson ar 0121 359 3611 est. 4385 neu e-bost [H.Mallinson@aston.ac.uk](mailto:H.Mallinson@aston.ac.uk)*

## Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau

Iau 9 Hydref 2003, Caerdydd - Siaradwyr i gynnwys Peter Clarke (Comisiynydd Plant Cymru) a Jane Hutt (Gweinidog Plant, y Cynulliad Cenedlaethol).

*Cysyllter â Jane Matthews ar 01874 622097*

## Proffesiynol mewn Chwarae - Cynhadledd Flynyddol

15 Hydref 2003, Llundain - Trefnir gan Uned Gwaith Chwarae SkillsActive (Y Cyngor Sector Sgiliau newydd sy'n disodli SPRITO) bydd y gynhadledd yn edrych ar y modd y gellir cwrdd â'r sialensiau newydd mewn hyfforddiant a chymwysterau gweithwyr chwarae a gofalywyr plant.

*Cysyllter â 020 7388 est. 206 neu e-bostiwrch [paul@sprito.org.uk](mailto:paul@sprito.org.uk)*

## Cynhadledd Bws Chwarae Cenedlaethol

7 Tachwedd 2003, Bryste - Cynhadledd undydd ar y thema chwarae cynhwysol.

*Cysyllter â'r Mudiad Bws Chwarae Cenedlaethol ar 0117 9166580*

## Dylunio Parth Cartref

12 Tachwedd 2003, Caerlyr - Arddangosfa a Chyflwyniadau.

*Manylion pellach ar [www.sraltd.co.uk](http://www.sraltd.co.uk)*

## Cynhadledd Gwaith Chwarae CYWU

18 Tachwedd 2003, Llundain - cyfle i archwilio datblygiadau polisi diweddaraf sy'n effeithio ar waith chwarae, yn ogystal â'r materion proffesiynol ac undebau llafur sy'n wynebu'r proffesiwn gwaith chwarae ar hyn o bryd.

*Cysyllter â Swyddfa Genedlaethol CYWU, 302 The Argent Centre, 60 Frederick St. Birmingham, B1 3HS, neu e-bost [terry@cywu.org.uk](mailto:terry@cywu.org.uk)*

## CYLLID

### Cyfuno Cronfa Cymuned/NOF

Gellir darllen y diweddaraf ar gynigion cyfuno'r Gronfa Gymuned/NOF ar <http://www.community-fund.or.uk/about-us/news/uk/200503-new-lottery-distributor-must-deliver-f.html>

Mae NOF wedi cyhoeddi'r rhifyn diweddaraf o Gweithio yng Nghymru - dogfen frifio yn cynnwys gwybodaeth ar raglenni cyfredol ac yn y dyfodol.

*Cysyllter â 029 2067 8200 neu gweler [www.nof.org.uk](http://www.nof.org.uk)*

### Ymddiriedolaeth Adnewyddu Meysydd Glo - Menter Adnewyddu

Dangosodd arolwg MORI fod lefel uchel o anfantais ymhlith ieuencid yn yr hen ardaloedd glofaol - mae'r CRT felly wedi sicrhau bod £20m ar gael i brosiectau ar gyfer gwella darpariaeth ieuencid yn yr ardaloedd yma. Ymhlith y cynlluniau i gael eu hariannu bydd darpariaeth 'mannau ieuencid pwrpasol'.

*Cysyllter â 01443 404455 neu gweler [www.coalfields-regan.org.uk](http://www.coalfields-regan.org.uk)*

### Grant Cymdeithasau Plant a Theuluoedd

Mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwahodd ceisiadau am gyllid craidd i fudiadau sector gwirfoddol Cymru-gyfan. Y dyddiad cau yw Awst 11 2003.

*Cysyllter â Thim Rhaglenni'r Plentyn a'r Teulu ar 029 2082 6802 neu e-bost [neil.hayes@wales.gsi.gov.uk](mailto:neil.hayes@wales.gsi.gov.uk)*

## Argraffwch!

Os oes gennych ddigwyddiad neu newyddion yr ydych yn dymuno eu rhannu gyda darparydion chwarae ar draws Cymru, cysylltwch â'r Golygydd yn ein swyddfa genedlaethol - buasem wrth ein bodd i glywed oddi wrthyh. Rydym bob amser yn croesawu cyfraniadau, ond yn cadw'r hawl i wrthod cyhoeddi neu i olygu.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn copi ar gyfer rhifyn yr Hydref yw 17 Hydref 2003, pan y byddwn, ynghyd â newyddion arall yn cyhoeddi erthyglau ar chwarae mewn ardaloedd gwledig.**

## Camgymeriad arall

Fel silod bach o'u cymharu â'r pysgod mawr ym myd y cyfryngau, rydym yn edrych i eraill am esiampl - felly mae'n ymddangos bod Chwarae Cymru'n efelychu'r Guardian yn hyn o beth...

Ymddiheurwn i swyddfa Cymdeithas Genedlaethol Teganau a Hamdden Cymru yn Aberhonddu - os ffoiwch chi'r rhif a argraffwyd yn ein rhifyn diwethaf mi gewch eich cysylltu â'u peiriant ffacs. Fodd bynnag os ffoiwch 01874 622097 byddwch yn medru siarad ag aelod o'u staff.

## ...ac Eto

Gellir cysylltu ag Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm ar 029 2049 4963

## Hyfforddiant Arolygu Rheolaidd Mannau Chwarae

### ar gyfer Cynghorau Cymuned, Tref a Sir a Mudiadau Gwirfoddol

Mae cyngor y Llywodraeth, Safonau Ewropeaidd a'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch oill yn argymhell bod pob man chwarae yn cael eu harolygu yn rheolaidd (yn ddyddiol neu'n wythnosol) am ddfifod, fandaliaeth a thraul. Ystyrir bod cymhwyster Cofrestr Arolygwyr Mannau Chwarae Cyf. (RPI) yn hanfodol i unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli, arolygu a chynnal a chadw ardaloedd chwarae.

Mae Chwarae Cymru'n cynnig cwrs deuddydd (yn cynnwys arholiadau ysgrifenedig ac ymarferol) yn Hydref 2003. Am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda cysyllter â Swyddfa Gogledd Cymru Chwarae Cymru ar 01745 851816 neu e-bost [northoffice@playwales.org.uk](mailto:northoffice@playwales.org.uk)